# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

## Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, 11eg o Orffennaf 2024 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Neuadd Llanystumdwy a drwy Zoom (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).

1. **Yn bresennol** y Cynghorwyr Aled Lloyd Evans (Cadeirydd), Sian Angharad Parry, Rhys Tudur, Anwen Jones, Dylan Thomas, Tegid Jones, Gareth O. Davies, Darren Morley a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau** – Cynghorwyr Margaret Griffith, Aled Davies, Delyth Parry, Euros Jones, Angela Williams a Miriam Williams.

2. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 6ed o Fehefin 2024.**

3. **Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS Mehefin 2024**

4. **Datgan buddiant personol – neb**

5. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

6. **Cyngor Gwynedd – cais cynllunio yn y gymuned**

**Cais rhif: C24/0530/41/LL : Tir tu ol i Tý Felin, Min Y Mor, Gwynle a Bwthyn, Llanystumdwy**: Codi uned byw/gwaith sy'n cynnwys gofod stiwdio pwrpasol, mannau gwasanaeth cysylltiedig a llety byw 1 ystafell wely a fydd yn cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad uniongyrchol a'r stiwdio yn unig.
**Gwrthwynebu – ni ellir cefnogi oherwydd nid oes digon o wybodaeth hefo'r cais. Mae'n uned sydd yn dý yn hytrach na stiwdio, ac felly yn achosi pryder y caiff ei ddefnyddio fel annedd.**

7. **Sedd wag yn Ward Llanystumdwy**. Clerc wedi cael gwybod gan Huw Elfed Williams, Swyddog Etholiadau nad oedd neb wedi ymateb. Felly, mae wedi anfon rhybudd Hysbysiad Cyfethol at y Clerc, ac mae wedi cael ei osod o flaen y Neuadd a'r Plu yn Llanystumdwy 28.06.2024, gyda dyddiad cau **09.07.2024** er mwyn medru cyfethol. **Neb wedi cysylltu felly bydd angen cyfethol, felly gellir trafod ymhellach yn nghyfarfod mis Medi 2024.**

8. **Costau a threuliau Cynghorwyr** – gall pob aelod hawlio £156.00 y flwyddyn (sy'n cyfateb i £3 yr wythnos) tuag at dreuliau ychwanegol (yn cynnwys gwresogi, goleuadau, pŵer a band eang) sy'n gysylltiedig â gweithio gartref. **Roedd y Clerc yn anfon ffurflen at bawb cyn y cyfarfod i wneud cais amdano, neu ei wrthod.**

**Materion yn y gymuned**.

9. **Llanystumdwy**

a) **Lon rhwng Fferm Gwynfryn, a Llwyn, Llanystumdwy.** Mae llawer o or-yrry a damweiniau ceir ar y gongl rhwng y ddau gyfeiriad. Mae hyn wedi bod yn broblem erioed ac mae'n ddarn peryglus o'r lon. Os byddai'r Cyngor yn cysidro gwneud

rhywbeth i'r lon yna mae perchnogion Fferm Gwynfryn yn fodlon rhoi darn o'u tir nhw i'r cyngor am ddim. **Clerc am gysylltu hefo Cyngor Gwynedd.**

b) **Parcio Maen y Wern** - aelod o'r cyhoedd yn dweud nad yw'r llinellau melyn yn mynd i fyny ddigon pell. Mae man lle mae'r wal yn bochio allan, gyferbyn a rhif 5 a 6 heb linnell. Mae'r ddau dŷ yma yn dai gwyliau ac nid yw'r bobl sy'n aros ynddynt o bosib yn ymwybodol o'r broblem. Yn aml mae'n anodd iawn pasio mewn car, heb son am ambiwlans neu injan dân neu loriau a faniau mawr sydd angen mynd i fyny'r lôn. **Roedd y Cyngor Cymuned wedi gofyn am osod y llinnellau melyn i fyny at y rhes dai, felly angen ei holi eto.**

10. **Rhoslan/Ynys**

a) **Clawdd wedi disgyn ar yr allt i lawr i'r lon ger fferm Bryn Beddau**- Clerc am dynnu lluniau a'i anfon at Cyngor Gwynedd.

b) **Lon rhwng Rhoslan i lawr am Bont Bryn Beddau** mewn cyflwr drwg. Clerc i gysylltu â'r Cyngor

11. **Chwilog**

a) **Llwybr Cyhoeddus ger Siop Povey's yn arwain at Bro Sion Wyn**
Clerc wedi cysylltu hefo Adran Llwybrau ond heb gael ymateb, ond mae'r gwrych wedi cael ei dorri rwan.

b) **Llwybr rhwng Chwilog ac Afonwen** – derbyniwyd ymateb gan Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd, yn dweud:-

"Yn amlwg rydym ni fel gwasanaeth yn siomedig iawn bod y cais penodol yma heb lwyddo ar yr achlysur yma. Eleni rydym wedi derbyn adborth gan Drafnidiaeth Cymru parthed y ceisiadau Teithio Llesol rydym wedi ei gyflwyno ac wrth gwrs mae'r adborth yn fuddiol i ni fedru adolygu hyn cyn ei gyflwyno eto.
Fel gwasanaeth, byddwn yn rhoi ystyriaeth fanwl i'r sylwadau sydd wedi ei dderbyn er mwyn gwella ansawdd y cais y tro nesaf. Eleni, mae £20,000 o arian crai Teithio Llesol i fynd i'r afael a'r adborth i'r cais gwreiddiol gan gredwn fod angen buddsoddi dipyn o arian i fedru casglu'r wybodaeth angenrheidiol i ateb y cwestiynau sy'n cael ei ofyn.Mae hyn yn her gyffredinol o'r safbwynt fod angen buddsoddi adnodd sylweddol yn paratoi'r ceisiadau yn ei hunain.
Credwn fod rhaid i ni hefyd nodi fod rhai o'r cwestiynau yn berthnasol i ardaloedd trefol yn unig. Yn amlwg mae'n anodd iawn cymharu'r cyfiawnhad ar gyfer cynlluniau cefn gwald â chynlluniau trefol felly os ydynt wedi nodi bod cyfle i gyflwyno ceisiadau ar gyfer ardaloedd gwledig dylai'r cwestiynau fod yn llawer gwell adlewyrchu hyn a bod yn fwy perthnasol a pwrpasol. Ar hyn o bryd mae'r cwestiynau'r un fath a gyda hyn, yn ogystal ag angen yr adnodd i ymateb i'r cwestiynau mewn manylder, mae'n annhebygol iawn fydd y wybodaeth wedi ei gasglu a chyflwyno mewn cyd-destun cefn gwlad yn cefnogi'n gadarnhaol y ceisiadau o'i chymharu â rhai mewn ardaloedd mwy trefol.
Fel rhan o'r gwaith paratoi cais pellach ar gyfer y trywydd penodol yma fe fydd yn hanfodol medru dangos a phrofi fod cefnogaeth leol i'r cynllun arfaethedig. Gyda hyn fe fydd swyddog mewn cyswllt a'r Cyngor Cymuned pan yn amserol gyda'r bwriad o ennyn a sicrhau hyn ynghyd ac unrhyw gefnogaeth bellach all y Cyngor ei gynnig.
Hyderaf fod yr uchod o ddefnydd a rhyw gysur i chi ag aelodau'r Cyngor Cymuned"

Gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr arall yn diolch am yr ymateb ond yn nodi fod angen ateb i'r cwestiynnau.

12. **Pencaenewydd/Sardis**

**Draen wedi blocio** rhwng giat lôn Tan Llyn a Drofa, Pencaenewydd ar ochor ffordd. Clerc wedi hysbysu'r Cyngor.

13. **Llangybi**
**a) Cae chwarae Llangybi – peintio offer.** Mae'r Clerc wedi cysylltu i ofyn am bris arall, ond ni dderbyniwyd un. **Penderfynwyd derbyn y pris a gafwyd, gan ofyn wrth Mr Gareth Lewis beintio'r offer.**
**b) Llawr newydd o dan yr offer** – derbyniwyd un pris ar gyfer gosod llawr newydd o dan yr offer, ond mae angen 3 pris i wneud cais am y grant. **Y Clerc wedi cysylltu hefo cwmniau eraill ac yn disgwyl atebion.**

14. **Ceisiadau cynllunio a ddaw yn ystod Gorffennaf ac Awst 2024** – angen caniatâd i'r Clerc roi sylwadau arnynt ar ol ymgynghori gyda'r Cadeirydd/Is Gadeirydd. Hefyd os bydd angen, gellir cynnal cyfarfod byr i'w trafod yn rhithiol. **Derbyn**.

15. **Materion Ariannol**
Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 30.06.2024. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud.

16. **Archwilio mewnol - Cyngor Gwynedd** – roedd y Clerc wedi derbyn ymateb yn cadarhnau fod popeth yn iawn, ond yn gwneud un argymhelliad:-

*"**Prif Ddarganfyddiadau** 2.1 Dengys yn Atodiad A yr amcanion rheolaethol a brofwyd ac a gafwyd yn foddhaol.*

***3. Barn yr Archwiliad***
***Gellir datgan sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu Cyngor Cymuned Llanystumdwy ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023-24 yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd ond bod rhai elfennau y gellir eu tynhau i liniaru risgiau a adnabuwyd. Argymhellir bod y Cyngor yn ymrwymo i roi sylw i'r risgiau canlynol a chymryd camau priodol i'w lliniaru:***
- ***• Diffyg gwahanu dyletswyddau wrth greu a phrosesu taliadau ar lein."***

Eglurodd yr archwilydd, hefo'r taliadau ar lein, mae'n bosib cael ail berson i awdurdodi taliad ar-lein efo HSBC erbyn hyn fel bod taliad methu gadael y cyfrif hyd nes i ail berson awdurdodi (fel ail lofnod ar siec). Gwelwyd bod nifer o gynghorau efo trefniadau mewn lle ar gyfer cymeradwyo taliadau fel hyn cyn iddynt gael eu prosesu ond mae risg yn parhau gan nid oes rheolaethau dros atal unigolyn rhag prosesu taliad heb gymeradwyaeth aelod arall.

Mae'r Clerc wedi cysylltu hefo Un Llais Cymru ynglŷn a hyn, a dywedodd fod drafft Polisi Rheoliadau Ariannol newydd ar y ffordd ganddynt, a bod ein gweithdrefniau ariannol yn iawn.

**Penderfynwyd derbyn argymhelliad yr archwiliwr, fel bod 2 o'r llofnofodwyr cyfrif banc yn awdurdodi taliadau o fis Medi 2024 ymlaen, sef Cynghorydd Aled Lloyd Evans a Sian Angharad Parry. Mae hyn yn rhoi cyfle i wneud trefniadau i wneud hyn.**

17. **Archwilio allannol** – y Clerc rwan wedi anfon y manylion ymlaen at Archwilio Cymru ac wedi rhoi rhybudd ar y wefan.

18. **Cyflog a chostau y Clerc mis Gorffennaf 2024** – caniatawyd i'w dalu ar ol 01.08.2024, oherwydd na fydd cyfarfod yn ystod mis Awst.

19. **Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc dalu biliau (os bydd angen)** yn **ystod misoedd Gorffennaf ag Awst 2024, ar ol ymgynghori a chael caniatad gan y Cadeirydd.**

20. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw/Rheswm** | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS:-<br>£ |
|---|---|---|---|
| ***Cyngor Gwynedd Toiledau cyhoeddus Llanystumdwy* | ***2000.00*** | ***2000.00*** | ***2000.00*** |

21. Cyflog mis Mehefin a Gorffennaf 2024 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS:-<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Mehefin 2024<br>35 awr y mis x £17.16 = £600.60 | 600.60 =<br>Llai treth<br>£120.12 =<br>**£480.48** | **480.48** | **480.48** |
| Cyllid a Thollau EM<br>Treth ar enillion y Clerc Mehefin 2024 | 600.60 x 20% =<br>**£120.12** | **120.12** | **120.12** |
| Costau swyddfa'r Clerc Mehefin 2024 | £26.00 | **26.00** | **26.00** |

| **Enw/Rheswm** | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS:-<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Gorffennaf 2024<br>35 awr y mis x £17.16 = £600.60 | 600.60 =<br>Llai treth<br>£120.12 =<br>**£480.48** | **480.48** | **480.48** |
| Cyllid a Thollau EM<br>Treth ar enillion y Clerc Gorffennaf 2024 | 600.60 x 20% =<br>**£120.12** | **120.12** | **120.12** |
| Costau swyddfa'r Clerc Gorffennaf 2024 | £26.00 | **26.00** | **26.00** |

**Materion hwyr**

- Derbyniwyd bil am doiledau Llanystumdwy, felly cytunwyd i'w dalu yn dilyn y cyfarfod.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau **05.09.2024** fydd y cyfarfod nesaf, yn Neuadd Llanystumdwy a drwy zoom.

**It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.**